# TRAWSNEWID TREFI – GRANT CREU LLEOEDD – CANOLBARTH CYMRU

# CANLLAWIAU YMGEISIO

# PRIF FFEITHIAU

## 1. Beth yw e?

Cynllun grant cyfalaf sy'n cwmpasu nifer o weithgareddau adfywio buddsoddiad cyfalaf mewn canol trefi ar hyd a lled Canolbarth Cymru, h.y. yn siroedd Powys a Cheredigion. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ac yn cael ei hyrwyddo gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

## 2. Ble gall buddsoddiadau ddigwydd?

O dan raglen ariannu 2022-2025, gall cynigion prosiect ddod ymlaen o unrhyw dref o fewn y rhanbarth o dan y Grant Creu Lleoedd. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae'r prosiectau'n cyd-fynd â chynllun creu lleoedd y dref neu strategaethau buddsoddi ehangach o fewn y dref.

## 3. Pryd mae'r cynllun ar agor?

Mae'r cynllun ar agor rŵan a bydd angen i bob prosiect ddod i ben erbyn 1 Mawrth 2025.

## 4. Faint o grant sydd ar gael?

£5M yw'r gyllideb ar gyfer 2022-2025 yn y Canolbarth. Mae'r lefel isaf o gostau prosiect cymwys y gellir ei ystyried yn £30,000 cyn TAW. Mae ceisiadau yn gyfyngedig i uchafswm grant o £250,000 ec eithrio TAW (ac eithrio'r Cynlluniau Cwmpasu Ffryntiad Siopau, Trefi Digidol, Tir y Cyhoedd, Cynlluniau Cefnogi Masnachu Allanol Canol Tref).

Bydd swm y grant a ddyfarnwyd i brosiect yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys ystyriaethau Rheoli Cymhorthdal a hyfywedd y cynllun.

Dylid ystyried unrhyw arian a ddyrannwyd trwy'r Grant Creu Lleoedd fel dewis olaf. Yn y lle cyntaf mae angen edrych ar bob llwybr cyllid arall gan gynnwys buddsoddiad preifat a benthyciadau. Yn ogystal â lle mae ffrydiau ariannu penodol yn cael eu nodi er enghraifft teithio llesol, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

## 5. Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r cynllun ar agor i fusnesau preifat, gan gynnwys datblygwyr, busnesau'r trydydd sector, a'r sector cyhoeddus. Nid yw ar gael i unigolion preifat. Gwirio cymhwysedd y cynllun yr ydych yn gwneud cais iddo i gael rhagor o fanylion – gellir dod o hyd i fanylion yn y ffurflen gais yn Atodiad 1 fel rhan o ganllawiau'r cynllun.

## 6. Sut mae'r cynllun i'w weinyddu?

Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan swyddogion ym mhob Sir, a fydd ar gael i gynghori ymgeiswyr ar sut i wneud cais cryf. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn contract ariannu gan Gyngor Sir Powys.

**7. Sut mae ceisiadau'n cael eu hasesu?**

Asesir ceisiadau gan banel lefel sir o swyddogion ac Aelodau'r Cabinet a fydd yn sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf sgorio sydd yn y canllawiau. Mae'r argymhellion wedyn yn cael eu hanfon at Banel Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'w hystyried cyn penderfyniad ffurfiol gan Gyngor Sir Powys. Dylai'r broses hon gymryd rhwng 3 a 5 wythnos.

**8. Sut mae gwneud cais?**

Astudiwch y ddogfen Cais ac Arweiniad ar y cynllun i edrych ar y math o gynlluniau sydd ar gael ac ystyriwch a yw hyn yn cyfateb i'r hyn rydych chi'n dymuno'i wneud. Os felly, cysylltwch â'ch swyddog sir i drafod eich cynllun. Dilynwch y cyngor a dderbyniwch ynglŷn â pha rannau o'r ffurflen i'w llenwi a pha dystiolaeth i'w darparu. Bydd paneli asesu yn cael eu cynnal yn rheolaidd i ateb y galw.

**9. A fydd grantiau'n cael eu cymryd yn ôl pe byddai'r eiddo'n cael ei werthu?**

Fel arfer byddai eiddo sy'n derbyn cymorth grant tuag at eu datblygiad yn destun tâl os yw'n cael ei werthu o fewn cyfnod o 5 mlynedd. Fodd bynnag, ni fyddem am atal diddordeb datblygwyr i fynd i'r afael â safleoedd / eiddo canol trefi segur sydd angen eu datblygu, ac efallai y bydd modd ystyried cytundeb ar fecanwaith sy'n caniatáu gwaredu eiddo ar ôl ei ddatblygu heb orfod ildio'r holl grant a gafwyd. Dylai datblygwyr sydd â diddordeb mewn archwilio'r opsiwn hwn gysylltu â'u swyddog lleol cyn gynted â phosibl. Mae angen cytuno ar hyn cyn unrhyw gymeradwyaeth grant.

**10. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd ei hangen er Budd Cymunedol**

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Trefi yn ymdrechu i helpu i ddatblygu economi Gymreig fywiog sy'n gallu cyflwyno twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb yng Nghymru. Dylai prosiectau sy'n elwa ar arian cyhoeddus gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol gyda'r nod o adeiladu cymunedau cryfach, lleihau allgáu cymdeithasol a thlodi, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r economi.

Rhaid i ymgeiswyr fanteisio i'r eithaf ar y buddion cymunedol a gyflwynir yn sgil y Cyllid drwy ddarparu lle bo hynny'n berthnasol:

1. Cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth: annog contractwyr i recriwtio a hyfforddi personau sy'n segur yn economaidd fel rhan o'r gweithlu sy'n darparu unrhyw gontract a osodwyd, yn uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol drwy'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn gynnwys cyflogaeth; prentisiaethau; profiad gwaith; treialon gwaith; neu gyfleoedd hyfforddiant perthnasol eraill.
2. Cyfleoedd y Gadwyn Gyflenwi i BBaCh sydd wedi'u lleoli yng Nghymru: Rhaid i gontractwyr llwyddiannus mewn unrhyw gaffael ystyried cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
3. Cyfraniadau i'r Gymuned ac Addysg - megis lleoliadau profiad gwaith, diwrnodau gyrfaoedd ac ati.

11. **Beth ddylid ei gynnwys yn y Cynllun Busnes?**
Dylai'r cynllun busnes fod yn ddigon manwl i fod yn gymesur â maint eich cynnig. Rydym am weld yn cael ei gynnwys:

- Sut rydych wedi pennu eich costau datblygu
- Sut rydych wedi pennu eich costau gweithredu yn y dyfodol
- Beth yw eich rhagdybiaethau a'ch rhagamcanion ar gyfer incwm masnachu neu eich derbyniad disgwyliedig ar werthiant
- Rhagolygon elw a cholled am 3 blynedd
- Cyfnod adfer buddsoddiad disgwyliedig
- Y prif risgiau a'r mesurau lliniaru
- Dealltwriaeth o unrhyw gystadleuaeth a'ch mantais
- Manylion eich profiad / arbenigedd chi neu'ch staff i ymgymryd â'r datblygiad

*Sylwch y gall Busnes Cymru eich helpu chi i lunio eich Cynllun Busnes os oes angen.*

Gwybodaeth ychwanegol penodol i'r cynllun:

**Uned Canol Tref Breswyl**

- Y galw am Fath a Deiliadaeth y Tai **-** Cadarnhewch nifer a math yr unedau tai i'w datblygu a'u maint. Faint o'r rhain fydd yn cael eu dosbarthu fel 'tai fforddiadwy' a sut fydd y statws hwn yn cael ei sicrhau am y dyfodol rhagweladwy? Lle defnyddir cyllid grant i gefnogi codi unedau tai cymdeithasol, mae'n ofynnol i gynlluniau gydymffurfio â "Gofynion Ansawdd Datblygu" (DQR). O ran gwerth am arian, mae'n rhaid i gynlluniau roi sylw i "Ganllawiau Cost Derbyniol" Llywodraeth Cymru. Dylai unrhyw gynllun sydd ddim yn cyfarfod naill ai DQR neu sydd â Mynegai Cost y Cynllun dros 120% gael ei drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Sylwch fod lletyau gwyliau'n cael eu cyfrif fel eiddo masnachol a dylid eu trin o dan yr adran honno. Sylwer nad yw llety myfyrwyr, ystafelloedd byw a chysgu a stiwdios yn gymwys i dderbyn cymorth grant. Sicrhewch fod cynlluniau a lluniadau o'ch datblygiad ynghlwm â'r cais hwn. Sut fydd darpariaeth parcio yn cael ei darparu ar gyfer yr unedau? Pa dystiolaeth sydd gennych chi o'r angen am y math o unedau rydych chi'n eu cynnig yn y lleoliad hwn, naill ai fel tenantiaethau neu eiddo i'w prynu'n gyfan gwbl?
- Angen Cyllid & Bwlch y Farchnad - Gwnewch yr achos dros yr angen am gymorth arian cyhoeddus. Atodwch brisiad annibynnol diweddar o'r eiddo gan ei fod ar hyn o bryd yn OGYSTAL â phrisiad annibynnol o werth yr eiddo wedi gwneud gwaith arno, i ddangos y bwlch rhwng y costau datblygu o'u cymharu â'r gwerth dilynol. Esboniwch pa fenthyca rydych chi'n gallu ymgymryd ag ef o'i gymharu â gwerth yr eiddo a pha drefniadau sydd gennych ar waith, gan atodi tystiolaeth gysylltiedig. Os yw incwm rhent yn rhan o'ch datrysiad ariannu - dangoswch dybiaethau byr a chyfrifiadau talu. Mae Cymorth Grant ar gael i helpu i gau'r bwlch yn y farchnad ac mae hefyd yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol yr ymgeisydd - felly darparwch gyfriflen banc ddiweddar a datganiad o gyfrifon os yw ar gael. Rhowch ddadansoddiad llawn o'ch pecyn ariannu arfaethedig.

**Cynlluniau Eiddo Masnachol**

- Angen Cyllid & Bwlch y Farchnad - Gwnewch yr achos dros yr angen am gymorth arian cyhoeddus. Atodwch brisiad annibynnol diweddar o'r eiddo gan ei fod ar hyn o bryd yn OGYSTAL â phrisiad annibynnol o werth yr eiddo wedi gwneud gwaith arno, i ddangos y bwlch rhwng y costau datblygu o'u cymharu â'r gwerth dilynol. Esboniwch pa fenthyca rydych chi'n gallu ymgymryd ag ef o'i gymharu â gwerth yr eiddo a pha drefniadau sydd gennych ar waith, gan atodi tystiolaeth gysylltiedig. Os yw incwm rhent yn rhan o'ch datrysiad ariannu - dangoswch dybiaethau byr a chyfrifiadau talu. Mae Cymorth Grant ar gael i helpu i gau'r bwlch yn y farchnad ac mae hefyd yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol yr

ymgeisydd - felly darparwch gyfriflen banc ddiweddar a datganiad o gyfrifon os yw ar gael. Rhowch ddadansoddiad llawn o'ch pecyn ariannu arfaethedig.

- Meddiannaeth o'r Safle - Rhowch amlinelliad byr o hanes y safle neu'r eiddo:
  - Pa mor hir y bu'n wag / segur?
  - Ar gyfer beth y defnyddiwyd ef yn y gorffennol?
  - A yw mewn ardal gadwraeth a/neu adeilad rhestredig?
  - Pam rydych chi'n meddwl y bydd eich defnydd arfaethedig yn gweithio yn y dyfodol?

**Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd**

- Newid Hinsawdd - Amlinellwch sut mae'r buddsoddiad yn cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn gwella ansawdd yr amgylchedd yn y lleoliad hwn ac yn helpu i ennyn ymdeimlad o les i breswylwyr / ymwelwyr. Disgrifiwch unrhyw ddatrysiadau dylunio arloesol. A yw'r cynllun yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau hysbys o ran llifogydd / materion dŵr wyneb yn y lleoliad hwn?
- Y pum egwyddor GI craidd y byddwn yn eu hystyried mewn perthynas â'ch cais yw:
  - Amlbwrpas
  - Bioamrywiol
  - Wedi'i addasu ar gyfer Newid Hinsawdd
  - Iach
  - Clyfar a Chynaliadwy
- Angen Buddsoddi - Esboniwch pam mae angen y buddsoddiad yn y lleoliad penodol hwn (yn hytrach nag mewn unrhyw leoliad arall yn y sir). Oes tystiolaeth i gefnogi hyn, er enghraifft Prif Gynllun (*Master Plan*) i'r dref?

**Tir y Cyhoedd**

- Ychwanegolrwydd - Esboniwch sut mae'r gwaith hwn yn amlwg yn ychwanegol at waith arferol tir y cyhoedd a wneir gan Awdurdodau Lleol, a pham y dylai'r cyllid adfywio hwn gyfrannu at y gwaith. Sut fydd y gwaith o fudd i fusnesau a'r gymuned leol?
- Angen - Esboniwch pam fod angen y gwaith yn y lleoliad hwn yn hytrach nag mewn unrhyw leoliad arall. A yw'r cynnig yn rhan o gynllun buddsoddi ehangach yn y dref, er enghraifft Prif Gynllun?

**Caffael Safle**

- Meddiannaeth y Safle - Rhowch amlinelliad byr o hanes y safle neu'r eiddo:
  - Pa mor hir y bu'r safle'n wag / tanddefnyddio?
  - Ar gyfer beth y defnyddiwyd y safle yn y gorffennol?
  - Ydy'r safle mewn ardal gadwraeth?
  - Pam rydych chi'n meddwl y bydd eich defnydd arfaethedig wrth symud ymlaen yn gweithio?
- Angen - Dangoswch eich bod wedi ystyried ffyrdd amgen o gyflwyno adfywiad yn y lleoliad hwn heb orfod troi at gaffael safle. Ydych chi wedi ystyried mesurau gorfodi cynllunio fel modd o yrru gwelliant?

**Marchnadoedd Canol Tref**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am wella'r farchnad o ran seilwaith a'r defnyddwyr terfynol. Pam eich bod wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn uwchlaw eraill?

**Defnydd o Ganol y Dref yn y Cyfamser**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am wella'r farchnad o ran seilwaith a'r defnyddwyr terfynol. Pam eich bod wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn uwchlaw eraill.

- Cydnawsedd – Esboniwch sut mae'r cynllun yr ydych yn ei gynnig yn gydnaws â Llawlyfr Llywodraeth Cymru ar Ddefnydd yn y cyfamser mewn adfywio canol trefi – gellir dod o hyd i'r ddolen ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Budd-dal Busnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'ch buddsoddiad

**Masnachu allanol canol tref**

- Canllawiau Dylunio - Cadarnhewch fod eich cynllun yn dilyn unrhyw ganllawiau dylunio technegol sydd ar gael ar gyfer eich ardal, gan nodi beth yw'r canllawiau hynny. Esboniwch yn gryno sut rydych chi wedi dewis eich offer neu'ch dodrefn stryd. Esboniwch sut nad yw'r cynllun yn cael effaith andwyol ar fynediad cerddwyr yn y lleoliad.
- Budd Busnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'ch buddsoddiad a sut y byddant yn elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Sut mae'r busnesau hyn wedi eu dewis i dderbyn cymorth? Ydy pob busnes yn y dref wedi cael cyfle i elwa? Os ddim – pam ddim?
- Ychwanegolrwydd - Esboniwch sut mae eich buddsoddiad yn amlwg yn ychwanegol at y math o fuddsoddiadau a'r gwaith y byddai eich sefydliad fel arfer yn ei gyflawni ag arian cyhoeddus arall. Mae angen i ni fod yn argyhoeddedig bod hwn yn ddefnydd da o gyllid adfywio.

**Cynlluniau Cwmpasu Ffryntiad Siopau**

- Canllawiau Dylunio - Cadarnhewch fod eich cynllun yn dilyn unrhyw ganllawiau dylunio technegol sydd ar gael ar gyfer eich ardal, gan nodi beth yw'r canllawiau hynny. Esboniwch yn gryno sut rydych chi wedi cyrraedd eich dewis o ddyluniad allanol.
- Budd Busnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'ch buddsoddiad a sut y byddant yn elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Sut mae'r busnesau hyn wedi eu dewis i dderbyn cymorth? Ydy pob busnes yn y dref wedi cael cyfle i elwa? Os ddim – pam ddim?
- Clwstwr - Rhowch fap o'r busnes a ddewiswyd i elwa er mwyn sicrhau bod eiddo'n gyfagos neu'n agos mewn tref benodol er mwyn sicrhau màs critigol a mwy o effaith.

**Trefi Digidol**

- Hyfywedd Technegol - Rhowch fanylion yr offer technegol fydd yn cael ey defnyddio i wireddu eich cynllun. Esboniwch pam eich bod wedi dewis y fanyleb hon. Sut ydych chi wedi lleihau'r tebygolrwydd o dechnoleg yn cael ei disodli yn y dyfodol agos? Pa fath o drefniadau Cytundebol ydych chi'n bwriadu eu cael ar waith ar gyfer gosod yr offer. Sut fyddwch chi'n defnyddio'r data sydd wedi'i chynhyrchu gan yr offer?
- Cynnal a chadw - Disgrifiwch pa drefniadau fydd gennych ar waith i redeg, cynnal, ac uwchraddio'r offer. Sut bydd hyn yn cael ei ariannu?

**Teithio llesol**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am y cynllun rydych chi'n ei gynnig o ran seilwaith a'r defnyddwyr terfynol. Pam eich bod wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn uwchlaw rhai eraill.
- Ffit strategol – esboniwch sut mae'r mesurau Teithio Llesol hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, ac maent wedi'u hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau a bolster sydd wedi'u cysylltu'n dda.
- Darparu tystiolaeth fod y cynigion wedi bod yn destun ymgynghori lleol.
- Rhoi manylion unrhyw bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol o ran ty darpariaeth a gynigir. Amlinellu'r ymrwymiad ei fod yn eistedd ochr yn ochr â nhw, ond heb ddyblygu'r cynlluniau a'r llwybrau presennol o fewn y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol – sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Teithio Llesol. Sicrhau bod y cysylltiad yn cael ei wneud gydag Arweinwyr Teithio Llesol yr Awdurdod Lleol perthnasol.

## Darpariaeth Toiledau

- Angen - Esboniwch pa ddarpariaeth sydd ar gael o fewn y dref ar hyn o bryd a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos yr angen strategol a nodwyd yn glir ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig.
- Ffit strategol – esboniwch sut mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, a sut y maent wedi'u hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau sydd wedi'u cysylltu'n dda.
- Rhoi manylion unrhyw bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.  Amlinellu'r ymrwymiad cynnal a chadw a glanhau parhaus..

### Cyfleusterau Hamdden

- Angen - Esboniwch pa ddarpariaeth sydd ar gael o fewn y dref ar hyn o bryd a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos yr angen strategol a nodwyd yn glir ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig.
- Ffit strategol – esboniwch sut mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, a sut y maent wedi'u hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau sydd wedi'u cysylltu'n dda.
- Darparu tystiolaeth fod y cynigion wedi bod yn destun ymgynghori lleol
- Rhoi manylion unrhyw bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig.  Amlinellu'r ymrwymiad cynnal a chadw parhau.

**Dolenni Defnyddiol**

Lle defnyddir cyllid grant i gefnogi darpariaeth unedau tai, mae'n ofynnol i gynlluniau gydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygiad Cymru 2021 (WDQR 21) "Creu Mannau a Chartrefi Prydferth" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, gan gynnwys bodloni'r "gofynion gofod" yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad A ac Atodiad B

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (gov.wales)

O ran gwerth am arian, mae'n rhaid i gynlluniau tai fforddiadwy roi sylw i "Ganllawiau Cost Derbyniol" Lywodraeth Cymru. Dylid trafod gyda'ch Swyddog Prosiect unrhyw gynllun nad yw naill ai'n cwrdd â WDQR 21 neu sydd â Mynegai Cost y Cynllun (fel y'i diffinnir yn y canllawiau).

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Effaith Carbon

You are required to clearly demonstrate how you have considered the carbon emissions of your proposals and what action you have taken or will take to reduce or minimise them.
Where the Funding is used to support domestic energy efficiency projects, schemes must follow the Welsh Government's energy company obligation (ECO) funding criteria.

Caffael Adeiladu Carbon Isel ac Adnoddau Effeithlon WRAP (wrapcymru.org.uk)

Dogfen beyond-recycling-strategy.pdf (Gov.Wales)

https://www.claw.wales/assets/images/uploads/documents/RoutemaptonetzerocarbonbuildingsWales.pdf

Ffeithlen Rhif 1 trosolwg o Fil yr Amgylchedd (Cymru) Saesneg (gov.wales)

Cynllun Adfer Natur Cymru - Rhan 1: Ein Strategaeth dros Natur (gov.wales)

Lleodd Lleol ar gyfer | Natur Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan (lnp.cymru)

Mannau Lleol ar gyfer Natur - Cadwch Gymru'n Daclus

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau | GOV.WALES

Community Asset Transfer – Site Acquisitions

Community Asset Transfer (CAT): guidance for applicants | GOV.WALES

Active Travel

Home | DataMapWales (gov.wales)

Canllawiau Deddf Teithio Llesol | LLYW. CYMRU

Marchnadoedd Canol Trefi

https://www.urbanfoundry.co.uk/wp-content/uploads/urban-foundry-markets-guide-short.pdf

Defnyddio yn y cyfamser

https://www.urbanfoundry.co.uk/wp-content/uploads/meanwhile-space-guide-short.pdf

Trefi Digidol

Home | Trefi Smart Town (smarttowns.cymru)

Cyfleusterau Hamdden

Home - Children's Commissioner for Wales (childcomwales.org.uk)

Chwarae Cymru | Play Wales

Cynllun Plant a Phobl Ifanc | GOV.WALES

Pecyn cymorth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae | GOV.WALES

Cymru: a play friendly country (gov.wales)

Cynlluniau Busnes

https://businesswales.gov.wales